

Cofion

- Parhawn i gofio am Elsie May Edwards (Llansannan) a Morfudd Williams (Henllan) yn yr Inffirmari, a Gwenfyl Williams (Llansannan) sydd erbyn hyn wedi symud i Gartref Bryn yr Eglwys ym Mhentrefoelas. Cofiw'n hefyd am Bet Williams a Catrin Jones (Llansannan) aeth i Ysbyty Glan Clwyd yn ystod yr wythnos, ac eraill o'n plith sydd heb fod cystal eu hiechyd y dyddiau hyn. Cyflwynwn hwy oll i ofal yr Arglwydd gan weddio y bydd Duw yn ei holl ddaioni yn rhoi nerth a chysur iddynt yn eu hangen.
- Yn yr un modd, cofiw'n am ffrindiau eraill sydd mewn cartrefi gofal – Mrs Menna Owen, Miss W J Roberts, a Mrs Edith Maloney (Yr Hen Ddeondy, Llanelwy); a Mrs Elizabeth Hughes (Plas Eleri, Dinbych). Cyflwynwn hwythau hefyd i ofal yr Arglwydd gan ofyn iddo eu hamgylchynu gyda thrugaredd a daioni.
- Llongyfarchiadau calonnog i Arwyn a Sian Jones (Nantglyn) ar enedigaeth merch, Magi Wyn. Dymunwn fendith Duw ar y teulu bach.

Derbyn yn Aelodau

Mae'r sesiynau ar fin dechrau ar gyfer gweddill yr ieuencid 15+ sydd wedi dangos diddordeb i ddod i gyflwyniad syml i Gristnogaeth ac, os byddan nhw'n awyddus, i gael eu derbyn yn aelodau yn eu heglwys leol wedi hynny. Os oes unrhyw un arall â diddordeb, cysylltwch â Rhodri, Gwion neu Mair **HEDDIW**, os gwelwch yn dda. Bydd y cyfarfod cyntaf nos Iau nesaf (Hydref 6ed) yn y Granar o 7.30 – 9.00.

I ddod

- **GWASANAETHAU DIOLCHGARWCH HENLLAN**, dydd Llun, Hydref 10fed am 2.00 gyda phlant yr Ysgol a'r Parch. Hywel Edwards yn rhoi sgwrs iddynt yn ystod y gwasanaeth. Bydd pregeth gan y Parch. Hywel Edwards yn yr oedfa am 7.00. Croeso cynnes i bawb.
- **BYW A DWEUD – Diwrnod i'n harfogi a'n hysbrydoli i rannu ein ffydd ag eraill** gyda Michael Ots (efenglydd ac awdur) yn Y Bala dydd Sadwrn, Hydref 15fed. Croeso i ieuencid 15+ ac oedolion o bob oed. Os am ffurflen archebu, ewch i wefan www.souledoutcymru.net neu cysylltwch â Choleg y Bala (01678 520565).
- **OEDFA DIOLCHGARWCH YN SOAR, LLANFAIR TALHAIARN** am 7.00 nos Iau, Hydref 20fed gyda'r Parch. Thomas Evans Williams yn pregethu. Croeso cynnes i bawb.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 2^{il} Hydref 2016

Darlleniad y Dydd

Jeremeia 23: 5-8

(BCND tud.708 / BCN tud.646)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Croeso cynnes i chi heddiw i oedfaon y dydd ac wrth i ni ddechrau mis arall o weithgaredd yn y Fro, cyflwynwn ein hunain a'n gilydd i'r Arglwydd gan ymbil arno ef i'n hadnewyddu yn ei gariad. (Seffaneaia 3:17)

Gwaith digon anodd yw bod yn arweinydd – dyna'r argraff mae rhywun yn ei gael wrth edrych ar y newyddion yr wythnos hon a gweld hanes Jeremy Corbyn a'r Blaid Lafur ar un llaw, a'r frwydr ffyrnig rhwng Donald Trump a Hillary Clinton ar yr ochr arall i'r Iwerydd! Unai maent yn cadw'n rhy gaeth at eu hegwyddorion a ddim yn ddigon poblogaidd, neu does dim egwyddor yn perthyn iddynt, ac o'r herwydd maent yn ei gwneud hi'n anodd iawn i bobl ymddiried ynddynt! Pwy all wneud y gwaith pwysig yma'n iawn, dyna'r cwestiwn sydd ar feddwl miliynau o bobl. Wrth gwrs, nid problem fodern yw hon gan fod arweinwyr amhoblogaidd wedi bodoli ers miloedd o flynyddoedd – yn llwyddo i blesio rhai pobl ond yn dân ar groen y gweddill.

Wrth i ni droi at y Beibl, gwelwn nad yw Duw ychwaith yn cytuno â nifer o arweinwyr trwy hanes. Mae brenhinoedd, proffwydi, ac offeiriadon yn cael eu condemnio ganddo am eu bod yn esgeuluso neu'n anwybyddu eu prif gyfrifoldeb – gofalu dros y bobl a'u harwain yn gywir. A dweud y gwir, mewn nifer o ddarnau o'r Hen Destament, mae'r Arglwydd yn datgan yn gwbl glir ei farn ar y rhai sydd i fod i arwain yn deg ond sydd yn hytrach yn cam-ddefnyddio'u grym er mwyn pluo eu nyth eu hunain. Dyna'r cefndir i'n darlleniad o Jeremeia 23 heddiw – yr Arglwydd yn ceryddu bugeiliaid ysbrydol Israel gan ddatgan barn arnynt am arwain ei ddefaid ar grwydr. Ond fel y gwelwn droeon trwy'r Beibl, mae Duw yn cosbi ac yn achub – ac yn yr achos hwn mae'n rhoi gobaith i'w bobl trwy ddatgan y byddai'n sicrhau y byddent yn ddiogel wrth iddo addo brenin o linach Dafydd i'w harwain. Byddai'r brenin hwn o linach Dafydd yn rheoli'n gywir, yn gwneud barn a chyfiawnder yn y tir.

Wrth i ni ddarllen y geiriau hyn yn 2016, cawn gysur o sylweddoli fod yr addewid hwn wedi dod yn wir yn y Brenin Iesu, ac mai ynddo Ef yr ydym ni i droi am arweiniad ac i ddiybnu arno am degwch a chyfiawnder. 'Yr Arglwydd ein cyfiawnder' fydd ei enw a dyna sy'n wir am Iesu Grist i bob un sydd wedi ymddiried ynddo gan fod ei gyfiawnder perffaith Ef yn dod yn eiddo i'r Cristion trwy ffydd. 'Wnaeth Iesu ddim pechu, ond dyma Duw yn ei wneud e'n offrwm dros bechod ar ein rhan ni. Dŷn ni'n gallu byw mewn perthynas iawn gyda Duw drwy ein perthynas gydag e.' (2 Cor. 5:21 Beibl.net)

Darlleniad Wythnos Nesaf

1 Ioan 1:5-10 (BCND tud.263 / BCN tud.241)

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 2^{il}
- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwion a bydd Rhodri yn pregethu.
- Mawrth – 4^{ydd}
- **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Iau – 6^{ed}
- **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
 - **Cyflwyniad i Gristnogaeth** (ar gyfer yr ieuenctid sydd wedi dangos diddordeb i gael eu derbyn yn aelodau) yn y Granar, Llansannan o 7.30 - 9.00.
- Sul nesaf – 9^{fed}
- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy a bydd Rhodri yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 2^{il}
- Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf – 9^{fed}
- Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanfair am 10.00 a'r Ysgol Sul am 11.00. Bydd aelodau Cefn Meiriadog yn mynd i'r Hen Ddeondy am 10.30 i gynnal gwasanaeth byr o ddiolchgarwch. Croeso i bawb.

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 2^{il}
- Bydd Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10. Bydd rhai o'r aelodau yn mynd i gynnal gwasanaeth byr yn Yr Hen Ficerdy, Pandy Tudur yn y prynhawn.
- Llun – 3^{ydd}
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn.
 - Oedfa Diolchgarwch Undebol Llansannan yng Nghapel Coffa Henry Rees am 7.30 gyda'r Parch. Hywel Edwards yn pregethu. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf – 9^{fed}
- Cynhelir Oedfa Diolchgarwch i'r Teulu dan arweiniad Rhodri yn Llansannan am 10.00 a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa. Bydd Pwyllgor Cymdeithas y Beibl yn cyfarfod am 7.30 yn Ystafell y Blaenoriaid, Capel Coffa Henry Rees.
 - Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma – 2^{il}
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.
- Iau – 6^{ed}
- Oedfa Diolchgarwch Capel Saron am 7.00 gyda'r Parch. Dafydd Rees Roberts yn pregethu. Croeso cynnes i bawb.
- Sul nesaf – 9^{fed}
- Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 2^{il}
- Bydd Rhodri yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.
- Sul nesaf – 9^{fed}
- Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 2^{il}
- Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Gwener – 7^{fed}
- Bydd Clwb Cinio yr ardal yn cyfarfod yng Nghefn Berain am 12.00. Croeso mawr i bawb!
- Sul nesaf – 9^{fed}
- Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanefydd ac yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgolion Sul yn cydreddeg.

Manylion Cyswilt

- Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291
- Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 582644 📞 07849 591163
- Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536
- Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.*

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.